



James Harland
Rheolwr Polisi Cynllunio Strategol
Coed Pella
Conway Road
Bae Colwyn
LL29 7AZ

29 Awst 2019

Annwyl James

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy: Cynllun Datblygu Lleol Newydd - Ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffefrir: Ymateb Llywodraeth Cymru

Diolch ichi am ymgynghori â Llywodraeth Cymru ar Gynllun Datblygu Lleol (CDLI) Newydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy – Ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffefrir. Mae'n hanfodol bod gan yr awdurdod CDLI cyfredol er mwyn rhoi sicrwydd i gymunedau lleol a buddsoddwyr.

Heb amharu ar bwerau'r Gweinidogion, mae Llywodraeth Cymru'n ymrwymedig i helpu Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLIau) i leihau'r risg o gyflwyno cynlluniau nad ydynt yn gadarn drwy wneud sylwadau priodol mor gynnar â phosibl yn ystod camau paratoi'r cynllun. Mae Llywodraeth Cymru yn chwilio am dystiolaeth glir bod y profion o gadernid (a nodir yn Argraffiad 2 y 'Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol') yn cael eu hystyried.

Mae Polisi Cynllunio Cymru: Argraffiad 10 (PCC) yn sefydlu'r flaenoriaeth gynllunio genedlaethol allweddol i ddarparu lleoedd cynaliadwy o ansawdd uchel drwy greu lleoedd. Mae PCC hefyd yn gofyn am agwedd ehangach, gynaliadwy sy'n ceisio datrys problemau, ac sy'n canolbwyntio ar integreiddio a mynd i'r afael â nifer o faterion er mwyn cyflawni canlyniadau cynllunio effeithiol. Mae hyn yn golygu symud oddi wrth y dull gweithredu traddodiadol o ystyried meysydd polisi ar eu pen eu hunain, ac yn cefnogi polisïau sy'n fwy seiliedig ar leoedd. Rhaid hefyd dangos y saith nod llesiant, ynghyd â'r pum ffordd o weithio sy'n annog pawb i feddwl mewn ffordd integredig a chydweithredol am y broses o lunio polisïau ac ystyried tueddiadau hirdymor. Caiff y broses o roi meysydd polisi craidd PCC ar waith, fel sicrhau strategaeth ofodol gynaliadwy, tai a lefelau twf economaidd, cyflwyno seilwaith a chreu lleoedd, ei disgrifio'n fanylach yn Argraffiad 3 o'r Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu. Cynhelir ymgynghoriad ar y Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu ar hyn o bryd, a chaiff ei gyhoeddi yn ystod mis Hydref 2019. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i awdurdodau gadw at elfennau craidd y Llawlyfr, yn enwedig y canllawiau a nodir ym Mhennod 5: Paratoi CDLI -

Materion Craidd, a'r rhestr wirio dileu risg, wrth baratoi'r sail dystiolaeth, ac i'w hystyried yng nghynnwys a diwyg y cynllun ei hun.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC) ar gyfer ymgynghoriad. Disgwylir i'r FfDC gael ei fabwysiadu cyn i CDLI Conwy gael ei fabwysiadu. Bydd yn ofynnol i CDLI Conwy gydymffurfio'n fras â'r FfDC pan gaiff ei fabwysiadu. Dylai'r Cyngor sicrhau ei hun bod modd cyflawni cydymffurfiaeth gyffredinol.

Rhaid canmol y Cyngor am ehangder ac ansawdd y papurau pwnc a'r papurau cefndirol a gyflwynwyd i hysbysu'r Strategaeth a Ffeirir, a manylder y Datganiad Ysgrifenedig. Mae'r Cyngor wedi dewis dull o roi pwyslais ar elfennau cychwynnol y broses o baratoi cynllun datblygu, a fydd yn rhoi'r awdurdod mewn sefyllfa gadarn wrth symud ymlaen tuag at y cam Adneuo. Bydd y pwyslais hwn ar yr elfennau cychwynnol yn sicrhau bod modd ymgysylltu'n fwy effeithiol ac ennyn sylwadau mwy ystyrlon ar y cam cynnar hwn, gan gynnwys nodi'r materion a'r cyfyngiadau allweddol i'w trafod â rhanddeiliaid allweddol.

Mae'r Strategaeth yn cyfeirio 90% o'r gwaith datblygu i ardal y Strategaeth Datblygu Arfordirol, a 10% i Ardal y Strategaeth Datblygu Gwledig, gan fabwysiadu dull o leoli datblygiadau a fydd yn sbarduno galw mawr am drafnidiaeth mewn ardaloedd trefol presennol neu mewn lleoliadau y gellir eu cyrraedd yn hawdd ar droed neu ar feic, neu lleoliadau sydd â chysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus a gwasanaethau da. Nid yw Llywodraeth Cymru yn gweld unrhyw ddiffygion yn y strategaeth ofodol na graddfa a lleoliad y cartrefi a'r swyddi a gynigir.

Bydd yn hanfodol dangos bod y strategaeth yn cael ei chyflawni a bod y dyraniadau yn cael eu gwneud, a dylai tystiolaeth eich awdurdod yn y Cynllun Adneuo gefnogi hyn. Mae'r gwaith a wnaed hyd yn hyn ar greu lleoedd, gofynion seilwaith, tafliwybr tai, gwaith hyfywedd cychwynnol a chyflenwi safleoedd strategol yn rhoi'r ACLI mewn sefyllfa dda ar gyfer y dyfodol. Nodir rhagor o sylwadau yn yr atodiad i'r llythyr hwn gyda chanllawiau ychwanegol yn y Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol (Argraffiad 3) drafft.

Mae Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, y profion o gadernid a PCC oll yn pwysleisio pwysigrwydd cydweithio rhwng awdurdodau cyfagos er mwyn sicrhau'r canlyniad cynllunio gorau posibl ar gyfer cymunedau. Mae gan y Cyngor gydberthnasau cryf â'r awdurdodau cyfagos, yn enwedig Sir Ddinbych. Mae'n rhaid i'r cynllun ddangos sut mae'r cydberthnasau hyn wedi dylanwadu ar y strategaeth, y polisiau, y cynigion a'r safleoedd a ddyrannwyd. Mae graddfa a lleoliad y twf mewn cyflogaeth ar hyd coridor yr A55 yn fater penodol yn hyn o beth.

Mae ein sylwadau hefyd yn cynnwys materion manylach yn yr atodiad i'r llythyr hwn. Gyda'i gilydd, mae ein sylwadau'n tanlinellu nifer o faterion y mae angen mynd i'r afael â nhw, yn ein barn ni, er mwyn ystyried bod y cynllun yn 'gadarn'. Rydym wedi nodi lle nad yw tystiolaeth o gadernid yn amlwg ar unwaith a lle dylid gwella neu atgyfnerthu'r sail dystiolaeth wrth i'r cynllun fynd rhagddo. Ymhlith y meysydd allweddol mae'r canlynol:

- Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (LHMA) – eglurder a chysondeb
- Sipsiwn a Theithwyr
- 'Safleoedd Eithriedig' o ran Tai Fforddiadwy
- Y Gymraeg
- Cyflawni a Gweithredu
- Ynni adnewyddadwy

Argymhellwn yn gryf y dylid ymdrin â'r materion hyn er mwyn rhoi'r cyfle gorau i'ch CDLI gael ei ystyried yn 'gadarn' ar y cam Adneuo.

Fel bob amser, byddem yn eich annog i gael eich cyngor cyfreithiol eich hun er mwyn sicrhau eich bod wedi bodloni'r holl ofynion gweithdrefnol, gan gynnwys Arfarniad o Gynaliadwyedd, Asesiad

Amgylcheddol Strategol ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd gan mai eich Awdurdod chi sy'n gyfrifol am y materion hyn. Dylid cyflawni gofyniad i Asesu'r Effaith ar Iechyd sy'n deillio o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, os bydd yn briodol, er mwyn asesu effaith debygol y cynllun datblygu arfaethedig ar iechyd, lles meddyliol ac anghydraddoldeb.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i sicrhau yr arweinig gwaith datblygu gan gynllun yng Nghymru. Rwy'n gobeithio y bydd y sylwadau hyn yn eich cynorthwyo wrth baratoi eich Cynllun Adneuo ac yn sicrhau yr ystyrir bod eich CDLI yn 'gadarn' ac y caiff ei fabwysiadu yn dilyn archwiliad annibynnol. Mae fy nghydweithwyr yn edrych ymlaen at gyfarfod â chi a'ch tîm i drafod materion sy'n codi o'r ymateb ffurfiol hwn.

Yn gywir,



Mark Newey
Pennaeth y Gangen Gynlluniau
Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio

Atodiad i Lythyr Llywodraeth Cymru 29 Awst 2019 mewn ymateb i CDLI Newydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy – Strategaeth a Ffefrir

Tai a Thwf Swyddi

Mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLI) wedi profi nifer sylweddol o senarios yn seiliedig ar faterion demograffig, cyflawni a chyflogaeth er mwyn llywio'r strategaeth ar gyfer twf. **Mae'r 'Strategaeth a Ffefrir' yn nodi gofyniad tai o 4,300 o gartrefi (290 y flwyddyn) ynghyd ag 20% o hyblygrwydd (5,120) a 1,800 o swyddi (14ha) dros gyfnod y cynllun.**

Mae lefel y twf a gynigir oddeutu 2,500 o anheddau uwch nag egwyddor Llywodraeth Cymru sy'n seiliedig ar ffigurau 2014 a'r amcanestyniad ymfudo 10 mlynedd. Mae'r Cyngor wedi dod i'r casgliad y byddai amcanestyniadau Llywodraeth Cymru yn arwain at lefelau 'rhy isel' o dwf ac y byddent yn gwaethygu'r rhagolygon demograffig ac economaidd negyddol ar gyfer yr ACLI. Mae lefel y cynnydd mewn tai a gynigir yn y Strategaeth a Ffefrir yn cyd-fynd yn fras â thueddiadau yn y cyfraddau adeiladu dros y 15 mlynedd diwethaf (300 y flwyddyn) ac mae ychydig yn uwch na'r cyfraddau adeiladu a welwyd dros y 10 mlynedd diwethaf (250 y flwyddyn). Mae'r gofyniad tai 2,200 o anheddau yn is na gofyniad y cynllun mabwysiedig presennol, sef 6,520 o anheddau.

Cyfrifir yr effeithiau ar y boblogaeth, tai ac anheddau drwy ddefnyddio methodoleg iteru o chwith, sy'n addasu elfennau o newid yn y boblogaeth (yn bennaf lefelau ymfudo) ymhlith y bobl o oedran gweithio a'u dibynyddion i sicrhau bod twf swyddi'n cyfateb i dwf y boblogaeth. Twf swyddi yw prif sbardun newid yn y boblogaeth. Mae'r opsiwn 'Polisi ar' gyflogaeth yn ystyried y sbardunau economaidd rhanbarthol a nodwyd ym Margen Twf y Gogledd. Mae'r strategaeth yn ceisio cefnogi dyheadau twf lleol a rhanbarthol a darparu'r amodau i ddenu a chadw strwythur poblogaeth mwy cytbwys (pobl o oedran gweithio a'u plant) yng nghyd-destun yr hyn y gellir ei gyflawni'n realistig. Mae'r opsiwn twf a ffefrir hefyd yn darparu ar gyfer cynnydd mewn tai fforddiadwy o fewn lefelau cyffredinol y twf mewn tai. **Bydd angen i'r ACLI ddangos y gellir cyflawni lefel y twf a bod y materion sy'n ymwneud â'r Gymraeg wedi cael eu hystyried yn drylwyr.**

Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (LHMA) – eglurder a chysondeb â'r strategaeth a'r sail dystiolaeth

Casgliad y LHMA (tabl 38) yw bod angen 200 o gartrefi fforddiadwy y flwyddyn dros gyfnod y cynllun (ac eithrio cyflenwi). Mae'r rhaniad deiliadaeth gofynnol yn dangos mai cartrefi rhent cymdeithasol (85%) a rhai canolradd (15%) sydd eu hangen yn bennaf. Fodd bynnag, mae'r casgliad yn dilyn y tabl yn nodi 'nad yw'r ACLI yn cytuno' a'i fod yn bwriadu anelu am raniad deiliadaeth 50/50. **Mae hyn yn wahanol iawn i dystiolaeth y cyngor ei hun ac mae angen darparu cyfiawnhad ac esboniad cadarn.** Mae PCC (paragraff 4.26) yn nodi pwysigrwydd yr LHMA fel rhan sylfaenol o'r sail dystiolaeth ar gyfer cynlluniau. Dylai'r ACLI fod yn ceisio cyflenwi tai fforddiadwy, o ran maint, math a deiliadaeth, yn unol â'i dystiolaeth ei hun. Yn ogystal, mae'r Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu (Argraffiad 3) yn tanlinellu pwysigrwydd sicrhau bod sail dystiolaeth y cynllun yn gyson yn fewnol. Yn benodol, mae'r cymysgedd o ddeiliadaethau o'r LHMA yn rhan graidd o'r gwaith hyfywedd sy'n ategu'r cynllun. Mae'n hanfodol bod y tybiaethau sy'n sail i hyfywedd y cynllun yn gyson â'r LHMA er mwyn sicrhau bod targedau ar gyfer tai fforddiadwy a'r canrannau ohonynt yn gadarn. Yn ôl ei natur, po fwyaf o dai canolradd y mae cynllun yn ei gynnig, mwyaf hyfyw y bydd. A yw landlordiaid cymdeithasol cofrestredig sy'n gweithredu yn yr ardal yn cytuno â sail dystiolaeth y Cyngor yn hyn o beth, h.y. cefnu ar gasgliadau'r LHMA?

Mae'r Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu (Tabl 24) yn nodi bod yr LHMA yn rhan graidd o'r dystiolaeth yn hyn o beth ac y "bydd angen i brofion a'r gwaith llunio polisi daro cydbwysedd rhwng a) cyflawni cymaint o dai fforddiadwy ag sy'n bosibl a b) cyfateb i ganfyddiadau diweddaraf yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol o ran y rhaniad deiliadaeth." **Hysbysir yr ACLI y gall gwyro oddi wrth yr LHMA i'r graddau hyn beri risg uchel oni all yr ACLI ei gyfiawnhau a'i esbonio'n gadarn. Dylai targedau tai fforddiadwy fod yn seiliedig ar dybiaethau cadarn a chyson er mwyn sicrhau eu bod yn hyfyw, yn briodol a'u bod yn cyflenwi cartrefi o'r math a'r ddeiliadaeth sydd eu hangen.**

'Safleoedd Eithriedig' o ran Tai Fforddiadwy

Mae'r hierarchaeth aneddiadau a pholisïau'r cynllun yn cyfeirio droeon at hyrwyddo 'safleoedd eithriedig' er mwyn diwallu anghenion lleol y tu allan i ffiniau aneddiadau, ar yr amod eu bod yn cynnwys o leiaf 50% o dai fforddiadwy, ar safleoedd â hyd at 20 o unedau. **Mae paragraff 4.2.34 o PCC yn eglur nad yw safleoedd eithriedig yn briodol ar gyfer tai'r farchnad.** Yn unol â llythyr diweddar y Gweinidog lle caiff dyraniadau tai fforddiadwy o 50% o leiaf eu cefnogi, yn enwedig ar dir cyhoeddus, dylai'r Cyngor ystyried dyrannu'r safleoedd hyn o fewn y cynllun a ffiniau ei aneddiadau er mwyn darparu sicrwydd a bod yn gyson â'r gofynion polisi cenedlaethol.

Y Ddarpariaeth ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr

Mae Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr y cyngor ond yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 2017 a 2022. Er mwyn sicrhau y cydymffurfir â deddfwriaeth a pholisi cynllunio, **mae'n rhaid paratoi Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr ac mae'n rhaid i Weinidogion Cymru gytuno arno cyn y cam Adneuo ar gyfer cyfnod cyfan y CDLI (2018-2033) gyda darpariaeth ar gyfer dyraniadau safle priodol ac ymarferol er mwyn diwallu'r angen a nodwyd o fewn yr amserlenni gofynnol**, os yw hynny'n briodol. Bydd methu â pharatoi Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr a diwallu'r angen yn debygol o arwain at ystyried nad yw'r cynllun yn 'gadarn'. Felly, byddem yn annog yr awdurdod i weithio gydag Is-adran Cydraddoldebau Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau bod y dystiolaeth ar gael erbyn y cam Adneuo.

Y Gymraeg

Mae'r Cyngor wedi ymgymryd ag Asesiad o Effaith y Strategaeth a Ffefrir ar y Gymraeg (mis Gorffennaf 2017) ac asesiad cychwynnol o effaith y pum safle strategol (BP42). Mae'n cydnabod pwysigrwydd yr iaith a'i rôl annatod ym mywyd cymunedau yng Nghonwy, gan danlinellu'r angen am bolisïau penodol a mesurau lliniaru. Rydym yn nodi bod Polisi Strategol 7: Y Gymraeg yn datgan y diffinnir ardaloedd ieithyddol sensitif yn y Cynllun Adneuo, ynghyd â mesurau lliniaru lle bo'n briodol. Dylai'r cynllun Adneuo wneud y canlynol:

- Esbonio sut mae'r defnydd o'r Gymraeg wedi dylanwadu ar raddfa a lleoliad y twf, gan gynnwys sicrhau nad yw datblygiadau tai a dyraniadau strategol yn effeithio'n negyddol ar y Gymraeg a bod hynny'n realistig ac yn ymarferol.
- Os yw hynny'n briodol, nodi ardaloedd ieithyddol sensitif o ran y Gymraeg y mae cyfran uchel o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg yn y polisi a chynnwys gofyniad am Asesiadau o'r Effaith ar yr iaith ar hap-safleoedd 'annisgwyl' yn unig.

Cyflwyno a Gweithredu

Mae'r Cyngor wedi gwneud llawer o waith o ran creu lleoedd, cyflawni a seilwaith er mwyn llywio'r Strategaeth a Ffefrir. Mae hyn yn rhoi'r ACLI mewn sefyllfa dda ar gyfer y dyfodol, o ran:

- Disgrifio'n glir a chyfiawnhau dosbarthiad gofodol y cyflenwad tai ac elfennau'r ddarpariaeth tai (preifat a fforddiadwy)

- Y taflwybr tai
- Asesu'r safleoedd strategol a'r seilwaith cyflawni – gan gynnwys cyfyngiadau, gofynion safleoedd a fframweithiau cysyniadau uwchgynllunio
- Papur hyfywedd tai fforddiadwy cychwynnol
- Asesiadau a gofynion addysg a thrafnidiaeth

Mae'r Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu (Argraffiad 3) yn nodi'r materion allweddol y mae'n rhaid mynd i'r afael â nhw (ym Mhennod 5) a dylai'r awdurdod sicrhau bod y cynllun Adneuo yn ymdrin â'r holl agweddau perthnasol, gan roi sylw arbennig i'r rhestr wirio dileu risg. **Yn benodol, dylai'r cynllun Adneuo wneud y canlynol:**

- Rhoi tystiolaeth o'r ffordd y darperir yr holl safleoedd dyranedig, gan gynnwys disgrifiad manwl o amseroedd cyflenwi, camau, costau a gofynion seilwaith, gan gynnwys paratoi Datganiadau Tir Cyffredin lle bo angen, er mwyn dangos y caiff y cynllun ei gyflawni;
- Paratoi astudiaeth hyfywedd lefel uchel i lywio targedau tai fforddiadwy, a gwaith hyfywedd penodol i safleoedd sy'n ganolog i'r broses o gyflawni'r strategaeth;
- Paratoi taflwybr tai manwl wedi'i ategu gan ddadansoddiad a dealltwriaeth o amseroedd datblygu, y cysylltiad rhwng y safleoedd, cyfyngiadau posibl, costau, gofynion seilwaith, dwysedd a ffrydiau ariannu, ynghyd â thybiaethau cadarn ar hap-safleoedd;
- Sicrhau y gellir ariannu unrhyw ofynion seilwaith gan ystyried y cyfyngiadau ar gyfuno ar gytundebau A106;
- Sicrhau bod y cynllun yn cynnwys polisiau penodol i safleoedd strategol, wedi'u hategu gan fframweithiau cysyniadau uwchgynllunio a gofynion seilwaith;
- Paratoi cynllun seilwaith a chynnwys atodiad ar gyfer cyflawni a seilwaith.

Ynni Adnewyddadwy

Mae cyfran fawr o'r awdurdod o fewn Ardaloedd Blaenoriaeth Rhif 3 a 15 ar gyfer Ynni Solar ac Ynni Gwynt yn y FfDC drafft. Fel y cyfryw, dylai'r Awdurdod sicrhau ei fod yn cydymffurfio'n gyffredinol â'r FfDC pan gaiff ei fabwysiadu. Mae'r ACLI wedi paratoi Asesiad Ynni Adnewyddadwy yn unol â Methodoleg Pecyn Cymorth Llywodraeth Cymru, sy'n dod i'r casgliad nad oes unrhyw Ardaloedd Chwilio Lleol sy'n addas ar gyfer ynni gwynt nac ynni solar. Mae'r Cyngor wedi dyrannu'r ardaloedd chwilio strategol yn ei ardal, ac mae'n cynnig dyrannu Tir ar safle Gofer ar gyfer arâe paneli solar 4MW. Dylai'r cynllun Adneuo wneud y canlynol:

- Dangos sut mae'r Asesiad Ynni Adnewyddadwy wedi'i ymgorffori ym mhroses y safleoedd ymgeisiol ac esbonio sut mae cyfleoedd ynni adnewyddadwy a charbon isel wedi llywio graddfa a lleoliad y twf;
- Cynnwys cyfraniad ardal y cynllun at ddatblygu a hwyluso ynni adnewyddadwy ac ynni carbon isel yn y polisi ac fel rhan o'r fframwaith monitro;
- Cynnwys cyfleoedd ar gyfer cynlluniau cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel lleol yn y fframwaith polisi.

Perygl Llifogydd

Dylai'r Cyngor sicrhau na chaiff unrhyw ddatblygiad sy'n agored iawn i niwed ei ddyrannu i Ardal Gorlifdir C2. Ceir datblygiad yn C1 ac er y gall egwyddor datblygu fod yn briodol yng nghydestun y polisi cenedlaethol, y brif ystyriaeth ar gyfer yr ACLI fydd dangos bod dyraniadau (lle bo'n berthnasol) yn addas ac yn ymarferol yn unol ag unrhyw fesurau lliniaru a all fod yn ofynnol er mwyn bodloni gofynion y polisi cenedlaethol. Bydd angen i'r ACLI ymgymryd ag Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd sy'n ddigon manwl a gofyn am gyngor gan y corff statudol, sef Cyfoeth Naturiol Cymru, cyn y cam Adneuo.

Polisi Strategol SP24 – Bioamrywiaeth a pharagraff 5.7.7

Croesewir Polisi Strategol SP24 a'r ffordd gadarn y mae'n adlewyrchu PCC ond, er mwyn sicrhau y caiff y polisi fesul cam ei wireddu'n llawn a'i fod yn cyd-fynd â'r polisi cenedlaethol, dylai'r broses pum cam gael ei dilyn yn y Cynllun Adneuo. Bydd yr Asesiad Seilwaith Gwyrdd yn helpu i lywio'r awdurdod drwy'r broses hon.
